



Ein cyf/Our ref: MA-L/ARD/0166/17

Simon Thomas AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

[SeneddFinance@assembly.wales](mailto:SeneddFinance@assembly.wales)

8 Mawrth 2017

Annwyl Simon,

Yn fy sesiwn dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 8 Chwefror ynghylch y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), cytunais i ddarparu gwybodaeth bellach ynghylch sut y bydd y pecyn cymorth gwerth £20 miliwn ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yn hwyluso ac yn cefnogi'r broses o weithredu'r Bil.

Mae'n bwysig cydnabod bod y cyllid a gyhoeddais ym mis Chwefror ar gyfer y rhaglen gyfan i drawsnewid y system ADY. Felly, mae'n anodd gwahanu'r gweithgareddau hynny sy'n canolbwyntio ar weithredu'r fframwaith deddfwriaethol yn unig. Mae'r rhaglen drawsnewid yn sicrhau bod pecyn cyflawn o gymorth ar gael i helpu partneriaid i drosglwyddo i'r system newydd a'i darparu, yn ogystal â gwella arferion a chydberthnasau gwaith yn y cyfamser.

Er mwyn gweithredu'r diwygiadau'n llwyddiannus, mae angen i ni sicrhau bod asiantaethau yn cydweithio'n effeithiol, bod gennym weithlu medrus sy'n gallu cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, a bod pawb sydd ynghlwm yn ymwybodol o'r newidiadau, eu dyletswyddau cyfreithiol newydd, eu hawliau a'u cyfrifoldebau, a beth y mae'r rhain yn ei olygu ar gyfer arfer unigolion, trefniadau o ran rheoli sefydliadau, ac ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru)  
[Correspondence.Alun.Davies@gov.wales](mailto:Correspondence.Alun.Davies@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

I'r perwyl hwn, rydym wedi datblygu rhaglen sy'n cynnwys pum llinyn allweddol:

1. y broses o ddatblygu'r fframwaith deddfwriaethol, gan gynnwys y Bil, y rheoliadau a'r cod ADY newydd;
2. gweithgareddau sy'n cefnogi partneriaid i baratoi, cynllunio a rheoli'r broses o weithredu'r system newydd a throsglwyddo iddi;
3. datblygu'r gweithlu ar dair lefel: datblygu sgiliau craidd yr holl ymarferwyr sy'n cefnogi dysgwyr ag ADY; datblygu sgiliau uwch drwy ddatblygu rôl Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol; yn ogystal â datblygu sgiliau arbenigol y gwasanaethau cymorth arbenigol a ddarperir gan awdurdodau lleol;
4. gweithgareddau codi ymwybyddiaeth i ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch eu dyletswyddau deddfwriaethol newydd, ac i esbonio a hyrwyddo'r system a'r hawliau y mae'n eu rhoi i blant, pobl ifanc a rhieni; a
5. polisi ategol, gan gynnwys datblygu adnoddau i helpu'r rheini sy'n rhan o'r system i ddeall y dystiolaeth o ran arferion gorau, yr hyn y gellir ei ddisgwyl o ymyriadau, yr ymyriadau sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol, a rôl gweithwyr proffesiynol wrth helpu i sicrhau disgwyliadau realistig a bod adnoddau'n cael eu trefnu'n effeithiol.

Fel y sylweddolwch, mae'r gweithgareddau sy'n rhan o'r pecyn hwn yn gysylltiedig iawn â'i gilydd.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sydd wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil ym mis Rhagfyr, yn canolbwyntio ar amcangyfrif o'r costau hynny sy'n ymwneud â'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig a ddaw yn sgil y fframwaith statudol newydd. Hynny yw, y gweithgareddau sy'n ofynnol er mwyn symud o un system statudol i system arall. Fodd bynnag, bydd y pecyn gweithgareddau gwerth £20 miliwn a gyhoeddais ar 7 Chwefror yn canolbwyntio o reidwydd ar yr holl linyrnau gwaith yn y rhaglen drawsnewid, sydd wedi cael eu datblygu i gefnogi'r broses o weithredu'r system newydd, gan gynnwys newid y diwylliant a'r arferion yn gyfan gwbl er mwyn sicrhau llwyddiant.

Bydd £10.1 miliwn o'r rhaglen werth £20 miliwn yn dod o'r £100 miliwn ychwanegol y mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi'i gael ar gyfer codi safonau mewn ysgolion. Bydd hyn yn caniatáu i ni fuddsoddi rhagor yn llinyn y rhaglen sy'n ymwneud â datblygu'r gweithlu. Yn ei dro, bydd hynny yn ein galluogi i fuddsoddi'n gynt mewn gwella sgiliau Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, a darparu datblygiad proffesiynol parhaus o ansawdd uchel er mwyn helpu i sicrhau gweithlu medrus i gyflawni'r diwygiadau.

Mae gweddill y rhaglen wedi cael ei lunio yn seiliedig ar y rhagdybiaeth gynllunio y bydd llinell wariant ADY y Llywodraeth yn cael ei chynnal ar y lefel bresennol tan 2020-21, gan gydnabod bod cyllidebau y tu hwnt i 2017-18 yn amodol ar ystyriaeth a chytundebau. Fe wnaeth Cyllideb Derfynol 2017-18, a gyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr, gynnwys cyllideb o £2.786 miliwn yn 2017-18 ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Rhaid i mi bwysleisio, felly, er bod y £10.1 miliwn wedi'i gadarnhau, fod gweddill yr £20 miliwn yn ddarostyngedig i benderfyniadau yn y dyfodol am ddyraniadau'r gyllideb. Fodd bynnag, un o fy mlaenoriaethau i fydd gwarchod y gyllideb hon.

Rwyf wedi amlinellu isod sut rydym yn rhagweld y caiff yr £20 miliwn ei ddyrannu yn ystod y cyfnod 2017-18 i 2020-21 i gefnogi'r broses drawsnewid. Mae hyn yn adlewyrchu'r blaenoriaethau sydd wedi cael eu trafod ag ystod o bartneriaid allweddol drwy'r Grŵp Gweithredu Strategol ADY. Mae gwaith pellach i fireinio'r cynigion yn cael ei wneud drwy nifer o weithgorau arbenigol a, lle y bo'n briodol, bydd yn rhaid ymgynghori ac ymgysylltu'n ehangach neu'n fwy ffurfiol. Felly, er bod yr wybodaeth ganlynol yn rhoi syniad clir o'n hamcanion o ran gwariant, mae'n bosibl y gallai newid wrth i waith gyda'n partneriaid cyflenwi fynd rhagddo.

### **Cymorth gweithredu / trosglwyddo (£7.62 miliwn rhwng 2017-18 a 2020-21)**

Mae'r gyllideb ar gyfer cymorth gweithredu a throsglwyddo yn cynnwys:

- **Y Gronfa Arloesi ADY**, sy'n cefnogi prosiectau i ddatblygu dulliau cydweithredol ac amlasiantaethol o gefnogi dysgwyr ag ADY yn well.
- **Grantiau gweithredu ADY** ar gyfer awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach, byrddau iechyd, y Tribiwnlys ac Estyn, fel y gallant baratoi ar gyfer trosglwyddo i'r system newydd. Bydd y gofynion ar gyfer y grant yn cynnwys cynnal hunanasesiadau i werthuso 'parodwydd', creu cynlluniau gweithredu a hyfforddiant ar y system newydd.
- **Grŵp Gweithredu Strategol ADY a Grwpiau Arbenigol.** Mae Grŵp Gweithredu Strategol ADY, a sefydlwyd yn 2016, yn helpu i ddatblygu'r rhaglen drawsnewid fanwl i gefnogi gweithredu'r Bil. Mae cyfres o grwpiau arbenigol wedi cael eu sefydlu i gefnogi gwaith y Grŵp Gweithredu Strategol. Mae'r grwpiau hyn yn ystyried materion penodol ynghylch gweithredu'r system newydd a'i fanylion gweithredol, gan gynnwys, er enghraifft, y blynyddoedd cynnar, ôl-16, trosglwyddo, datblygiad proffesiynol parhaus, cynlluniau datblygu unigol, Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol a rôl y gwasanaeth iechyd.

- **Cefnogwyr Strategol ADY**, a fydd yn darparu cyngor, cymorth a her i awdurdodau lleol a phartneriaid cyflenwi eraill wrth baratoi ar gyfer y system newydd, a rheoli'r broses drosglwyddo.
- **Parodrwydd, cydymffurfio a monitro effaith.** Rhaglen sy'n cynnwys ymchwil, monitro a gwerthuso er mwyn asesu'r broses o weithredu, effaith y newidiadau deddfwriaethol a sut mae'r Cod newydd yn cael ei gymhwyso, gan sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â materion/ problemau yn effeithiol er budd plant a phobl ifanc, a bod arferion gorau yn cael eu nodi a'u rhannu ledled Cymru.

### **Datblygu'r gweithlu (£12.047 miliwn rhwng 2017-18 a 2020-21)**

Mae 3 lefel i weithgareddau datblygu'r gweithlu:

- **Datblygu sgiliau craidd:** hwyluso mynediad at ddatblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant o ansawdd uchel ar gyfer athrawon, staff cymorth, a staff eraill yn y sector addysg.
- **Datblygu sgiliau uwch:** bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod pob ysgol a sefydliad addysg bellach yn cael mynediad at Gydlynnydd ADY sydd â lefel ragnodedig o sgiliau a chymwysterau. Ein dyhead yw y bydd gennym weithlu o Gydlynwyr ADY sydd â chymwysterau lefel meistrol o fewn y degawd nesaf. Rydym yn gweithio gydag ymarferwyr a phrifysgolion ar hyn o bryd i ddatblygu manyleb amlinellol ar gyfer cymhwyster priodol. Drwy fuddsoddi yn y maes hwn, byddwn yn gallu creu llwybr carlam ar gyfer nifer sylweddol o weithwyr proffesiynol hyd at lefel Tystysgrif Ôl-raddedig neu lefel Diploma, gan wella'r sylfaen wybodaeth o fewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach.
- **Datblygu sgiliau arbenigol:** rydym yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i greu system genedlaethol i gynllunio'r gweithlu ar gyfer gwasanaethau arbenigol a ddarperir gan awdurdodau lleol, sy'n ystyried anghenion penodol ardaloedd lleol, gan gynnwys anghenion a gofynion o ran iaith. Bydd hyn yn llywio'r gwaith o gomisiynu lleoliadau hyfforddi ar gyrsiau hyfforddi arbenigol, yn seiliedig ar dystiolaeth a chynaliadwyedd.

### **Codi ymwybyddiaeth (£0.265 miliwn rhwng 2017-18 a 2020-21)**

Mae'r ffrwd waith o ran codi ymwybyddiaeth a chyfathrebu yn cynnwys gweithgareddau i hysbysu partneriaid ac ymgysylltu â nhw ynghylch eu dyletswyddau deddfwriaethol newydd. Mae hyn yn cynnwys esbonio a hyrwyddo'r system a'r hawliau a gyflwynir i blant, pobl ifanc a rhieni. Mae hefyd yn ymwneud â sicrhau bod y system newydd yn gweithredu ar sail tystiolaeth o'r arferion gorau.

### **Polisi ategol (£0.312 miliwn rhwng 2017-18 a 2020-21)**

Bydd datblygu polisiau yn sail i'r broses drawsnewid. Byddwn yn datblygu ac yn lledaenu polisiau a chanllawiau ynghylch nifer o faterion ar gyfer ymarferwyr a phlant, eu rhieni a phobl ifanc sy'n rhan o'r system ADY bresennol. Bydd y gweithgarwch hwn, er enghraifft, yn hwyluso dealltwriaeth well o rôl gweithwyr proffesiynol gwahanol ac yn gwella gweithio trawsffiniol ac amlasiantaethol, yn ogystal â sicrhau bod adnodd digonol yn ei le i ddarparu'r rhaglen.

I grynhoi, mae'r tabl canlynol yn nodi sut rwy'n disgwyl y caiff y llinynnau gwaith hyn eu proffilio dros y pedair blynedd ariannol nesaf:

<b>Ffrwd waith</b>	<b>2017-18</b>	<b>2018-19</b>	<b>2019-20</b>	<b>2020-21</b>	<b>Cyfanswm costau'r gweithgaredd</b>
Cymorth gweithredu / trosglwyddo	1,875,000	1,650,000	1,940,000	2,155,000	<b>7,620,000</b>
Datblygu'r gweithlu	1,295,000	3,602,000	3,650,000	3,500,000	<b>12,047,000</b>
Codi ymwybyddiaeth	45,000	65,000	100,000	55,000	<b>265,000</b>
Polisi ategol	171,000	69,000	46,000	26,000	<b>312,000</b>
<b>CYFANSWM</b>	<b>3,386,000</b>	<b>5,386,000</b>	<b>5,736,000</b>	<b>5,736,000</b>	<b>20,244,000</b>

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Lynne Neagle AC, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Alun', with a horizontal line underneath.

**Alun Davies AC/AM**

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

Minister for Lifelong Learning and Welsh Language